
Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â sicrhau bod papurau sydd eu hangen ar swyddogion cyn achosion llys, tribiwnlys ac erlyn yn cael eu paratoi a'u bod ar gael.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd, tribiwnlysoedd neu erlyniadau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi papurau a gwybodaeth sydd eu hangen ar swyddogion a phartïon eraill sy'n mynychu gwrandawladau, yn unol â gofynion sefydliadol 2. nodi papurau a gwybodaeth sy'n weddill, yn unol â gofynion sefydliadol 3. gofyn am bapurau a gwybodaeth sy'n weddill gan y rheiny sy'n gyfrifol am eu darparu, yn unol â gofynion sefydliadol 4. nodi materion gyda phapurau a gwybodaeth a gofyn am eglurhad, yn unol â gofynion sefydliadol 5. cofnodi a storio ceisiadau am wybodaeth, yn unol â gofynion sefydliadol 6. mynd ar drywydd ymatebion lle nad yw materion wedi cael eu penderfynu o hyd, yn unol â gofynion sefydliadol 7. paratoi ffeiliau, yn unol â gofynion swyddogion sy'n mynychu gwrandawladau, yn unol â gofynion sefydliadol 8. cyfeirio anawsterau wrth baratoi ffeiliau at y bobl berthnasol, yn unol â gofynion sefydliadol 9. darparu ffeiliau i unigolion, yn unol â gofynion sefydliadol 10. trefnu bod gwybodaeth ar gael, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 11. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol i baratoi papurau ar gyfer gwrandawiadau, yn eich maes cyfrifoldeb 2. dogfennau sydd eu hangen ar gyfer achosion y mae llysoedd a thribiwnlysoedd yn delio â nhw yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt 3. dogfennau a gwybodaeth sydd eu hangen ar wahanol swyddogion 4. graddfeydd amser ar gyfer paratoi gwybodaeth a chael gwybodaeth yn barod 5. pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n gywir a sut i wneud hyn 6. pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a sut i wneud hyn 7. eich lefelau cyfrifoldeb ac at bwy i gyfeirio os eir y tu hwnt i'r rhain 8. gweithdrefnau ar gyfer delio ag unrhyw wybodaeth anawdurdodedig

SFJDB4

Paratoi a darparu papurau ar gyfer achosion llys, tribiwnlys ac erlyn unigol



Datblygwyd gan	Skills for Justice
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2018
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Chwef 2023
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau er Cyfiawnder
RCU gwreiddiol	SFJ DB4
Galwedigaethau perthnasol	Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys
Cyfes/Set	Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau
Geiriau Allweddol	llys; tribiwnlys; achos; paratoi; papurau; swyddogion; erlyniadau
